**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 24 Tachwedd 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Julian Thompson Hill

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

**Teitl:** Adroddiad Cyllid (mis Hydref 2020/21)

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arni ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2020/21.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21 sydd yn Atodiad 1. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 19/20). Rhagwelir y bydd gorwariant o £5.492 miliwn (£5.107miliwn fis diwethaf) ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Nid yw'r gorwariant hwn yn cyfrif unrhyw grant 'colli incwm' ar Chwarter 2 (hawliad o £3.233 miliwn wedi'i gyflwyno) nac unrhyw hawliadau eraill. Amlinellir cefndir y

risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6 ac Atodiad 2, sydd hefyd yn nodi'r gorwariant gros.

Roedd cyllideb 2020/21 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd o £4.448 miliwn fel y nodir isod:

- Nodwyd arbedion corfforaethol yn ymwneud â'r adolygiad actiwaraidd pob tair blynedd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2 filiwn)
- Arbedion ysgolion o 1% (£0.692 miliwn)
- Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau (£1.756 miliwn)

Mae'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni. Ar ben hyn, dynodwyd £1.086 miliwn o'r arbedion gwasanaeth yn wreiddiol fel arbedion sydd eisoes wedi'u gweithredu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ar naratifau gwasanaethau sylweddol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

**Effaith y Coronafeirws -** Mae'r strategaeth fyrdymor bresennol o weithio gyda Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau cyllid sylweddol a fanylwyd mewn adroddiadau blaenorol: Mae system o hawliadau gwariant misol a hawliadau colli incwm chwarterol wedi'i sefydlu. Yn sgil y cyfnod clo diweddar mae'n bosibl na fydd y £264 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Awst yn ddigon ond rydym yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sefyllfa'r hawliadau gwariant ar gyfer CSDd. Mae'r golofn 'Yn cael eu dal' yn nodi eitemau y mae LlC yn gofyn am fwy o wybodaeth yn eu cylch:

| Mis | Cyfanswm Hawliad Gwreiddiol | Gwrthodwyd | Addasiad y mis blaenorol | Daliwyd | Taliad rhannol (50% o gostau TGCh) | Hawliad net a dalwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2020 | £61,701 | £0 | £0 | £0 | | £61,701 |
| Ebrill 2020 | £666,927 | 0 | (£8,865) | £0 | | £658,062 |
| Mai 2020 | £1,200,170 | (£22,377) | (£54,538) | (£135,778) | | £987,477 |
| Mehefin 2020 | £1,027,489 | (£14,586) | (£1,301) | (£158,614) | (£14,640) | £840,950 |
| Gorffennaf 2020 | £608,569 | 0 | | (£248,013) | | £360,556 |
| Awst 2020 | £449,370 | | £433,376 | | | £882,746 |
| Medi 2020 | £753,407 | | | | | £753,407 |
| **Cyflwynwyd hyd yma** | **£4,767,633** | **(£36,963)** | **£371,274** | **(£542,405)** | **(£14,640)** | **£4,544,899** |
| **Cyfanswm** | **£4,767,633** | **(£36,963)** | **£371,274** | **(£542,405)** | **(£14,640)** | **£4,544,899** |

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r sefyllfa ynglŷn â’r hawliadau colli incwm chwarterol. Nid yw Chwarter 2 wedi bod drwy’r Panel a’r broses gymedroli a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru eto.

| Chwarter | Cyfanswm hawliad gwreiddiol | Gwaharddwyd (Cefndy) | Daliad (Addysg) | Gwaharddwyd (HRA) | Daliad 50% Cynllunio ac ati | Hawliad Net wedi’i addasu | Talwyd gan LlC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Colli Incwm Ch1 | £4,007,786 | (£74,999) | (£523,270) | (£131,960) | (£86,050) | £3,191,507 | (£3,191,507) |
| Colli Incwm Ch2 | £3,232,679 | | | | | £3,232,679 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£7,240,465** | **(£74,999)** | **(£523,270)** | **(£131,960)** | **(£86,050)** | **£6,424,186** | **(£3,191,507)** |

Mae’r tabl uchod yn dangos hyd yma bod Llywodraeth Cymru wedi talu £7.736 miliwn ac mae gennym hawliad sy’n weddill o £3,232 ar gyfer incwm.

**Model Darparu Amgen Hamdden** – Mae’r llinell gyllideb hon yn cynnal y cyllidebau gweddilliol sy'n gysylltiedig â Hamdden, gan gynnwys y ffi reoli sy'n talu am y gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu yn ystod blwyddyn arferol. Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn adrodd yn fisol i'r Bwrdd Rheoli Contractau ar y sefyllfa ariannol sy'n newid yn gyflym yn yr ardal hon. Mae’r Cyngor yn hawlio arian colli incwm gan Lywodraeth Cymru ar ran Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

**Cyllidebau Corfforaethol** – Er nad oes unrhyw amrywiant ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd yr holl wariant dewisol ac arian wrth gefn yn cael eu rhyddhau er mwyn helpu i ariannu'r sefyllfa. Fel yr adroddwyd y mis diwethaf mae £410 mil o gyllideb wrth gefn wedi’i ddyrannu i wasanaethau i dalu am y setliad tâl diweddar. Fodd bynnag mae risgiau yn parhau o amgylch yr Incwm o Dreth y Cyngor a’r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor sy’n

debygol o ddileu gweddill y gronfa wrth gefn. Cariwyd Balansau Cyffredinol heb eu clustnodi o £7.135m ymlaen i 2020/21, gydag isafswm lefel ddarbodus o £5 miliwn neu 2% o'r Gyllideb Refeniw Net (£4.2 miliwn) p'un bynnag yw'r uchaf. Mae’n bosibl y bydd angen adolygu hyn wrth i ni barhau i deimlo effaith y pandemig.

**Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £2.9 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Yr amcanestyniad diweddaraf ar gyfer balansau ysgol i’w cario ymlaen i 2021/22 yw diffyg net o £1.918 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o £0.530 miliwn yn y diffyg sydd wedi'i ddwyn ymlaen i 2020/21 o £1.388 miliwn.

**Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** Mae’r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn cymryd y bydd gostyngiad o £1,066 miliwn mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd £853,000 yn fwy na’r gostyngiad o £213,000 yn y gyllideb oherwydd y cynllun diwygiedig i gynyddu’r cyfraniad refeniw i gyfalaf. Felly rhagwelir y bydd balansau’r CRT yn £1.600 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae’r Gyllideb Gyfalaf o £19.2 miliwn yn cael ei rhannu’n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i’r stoc dai bresennol (£5.3 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£13.8 miliwn).

**Rheoli’r Trysorlys** – Ar ddiwedd mis Hydref, roedd cyfanswm benthyciadau’r Cyngor yn £243.5 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.91%. Roedd y balansau buddsoddi yn £19.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.01%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor ynghlwm yn Atodiad 3. Swm y cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yw £50.89 miliwn, ac mae’r gwariant hyd yma’n £17.91 miliwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o’r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ei gyflwyno i’r Cyngor ar 21 Ionawr.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Hefyd eleni, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn datblygu ar y profiad yn y blynyddoedd i ddod.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Wrth gwrs, mae'r ffocws ar hyn o bryd ar yr ymateb ariannol a'r broses adfer yn sgil pandemig Covid-19. Er bod y pwysau yn sylweddol iawn, mae'r Cyngor yn dechrau'r cyfnod hwn gyda'r manteision canlynol:

- Enw da iawn am reoli cyllid ac ymateb i dros 10 mlynedd o ostyngiadau yn y gyllideb mewn termau real. Dylai'r systemau a'r prosesau sydd ar waith helpu Cyngor Sir Ddinbych yn ei ymateb

- Mae gan y Cyngor gronfeydd ariannol wrth gefn a balansau cymharol iach.

- Roedd y setliad a'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2020/21 yn caniatáu i'r Cyngor fynd i'r afael â llawer o bwysau o fewn Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Gwastraff, Cludiant Ysgol, Addysg ac Ysgolion. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r pwysau busnes arferol yn dal i fodoli, ond mae'n golygu ein bod mewn sefyllfa well na'r blynyddoedd blaenorol

Bydd yr Adroddiad Cyllideb rheolaidd i'r Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau a darperir diweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd anffurfiol o'r Cabinet o hyd.

Mae meysydd o risg yn parhau ar gyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant), Cludiant i'r Ysgol a Gwasanaethau Gwastraff er gwaethaf y buddsoddiad sydd yng nghyllideb 2020/21 (cyfanswm o £6.1 miliwn). Caiff y meysydd hyn eu monitro'n agos drwy'r flwyddyn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae’n amlwg mai dyma’r cyfnod ariannol mwyaf heriol mae Cyngor Sir Ddinbych wedi’i wynebu. Nod y Strategaeth Ariannol y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Mai yw lliniaru'r risgiau allweddol canlynol:

- Gall methu â chael strategaeth ariannol gadarn effeithio ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol y Cyngor.
- Effaith ar allu’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau craidd.
- Effaith ar allu’r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.